

## WILLIAMS, JOHN (fl.1603-27), gof aur

**Enw:** John Williams  
**Plentyn:** John Williams  
**Rhiant:** William Coetmor  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gof aur  
**Maes gweithgaredd:** Celf a Phensaerniaeth; Diwydiant a Busnes  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Mab i William Coetmor ac wyr i John Coetmor a oedd yn fab gordderch (y 23ain plentyn) i [Feredydd ab Ieuan ap Rhobert o'r Gesail Gyfarch](#), Eifionydd - hanner-brodyr i John Coetmor oedd [Humphrey Wynn o'r Gesail Gyfarch](#) a Chadwaladr Wynn o'r Wenallt yn Nanhwynen ('Nant Gwynant') - gweler [J. E. Griffith](#), *Pedigrees*, 280-1, 393. I bob golwg, ganwyd John Williams yn yr Hafod Lwyfog, Nanhwynen, serch mai i deulu Cadwaladr Wynn (uchod) y perthynai Nanhwynen, ac mai trigiannydd yr Hafod yn 1638 oedd Evan Lloyd, o'r Gesail Gyfarch; eithr gwyddys i John Williams roi llestri cymun i eglwys Beddgelert yn 1610 a hefyd ailgodi'r capel anwes yn Nanhwynen yn yr un flwyddyn - rhodd brodor fyddai hynny, gellid meddwl. Yr oedd ganddo frawd o'r enw Humphrey (*Cal. Wynn Papers*, 483), a oedd yn ei fusnes gydag ef. Anghysbys yw adeg geni'r ddau; ni wyddys chwaith pa bryd yr aethant i Lundain. Y tro cyntaf y clywir am enw John Williams yn *Calendar of State Papers, Domestic Series* yw ar 30 Mawrth 1604, pan delir iddo fel 'one of the King's goldsmiths,' ac ar 23 Hydref yn yr un flwyddyn y mae'r sôn cyntaf amdano yn *Cal. Wynn Papers*; ond wrth gwrs y mae'n rhaid ei fod wedi bod yn Llundain (yn y ' Cross Keys,' Cheapside) gryn amser cyn hynny, a chael cryn enw yn ei grefft. Derbyniwyd ef yn aelod o Gray's Inn, 9 Awst 1612 (' John Williams, goldsmith to the King'), er anrhydedd mae'n debyg, oblegid cofnodir derbyn amryw wyr blaenllaw, nad oedd dim a wnelent â'r gyfraith, yn yr un cyfnod. Ymddengys ei enw'n weddol fynych yn *Calendar of State Papers, Domestic Series* a *Cal. Wynn Papers* (mynegeion) hyd ddiwedd teyrnasiad Iago I; ond y cyfeiriad olaf ato ym mhapurau [Gwydir](#) yw 1389, Chwefror 1626, ac nid ymddengys yn *Calendar of State Papers, Domestic Series*, hyd y gellir barnu, ar ôl Medi 1627 - wrth gwrs, ni ellir bod yn sicr nad yw'n llechu dan ryw ' John Williams ' neu ' Williams ' arall yn y mynegeion. Yr argraff a adewir arnom yw fod ei gyswllt â'r llys wedi peidio gyda theyrnasiad Iago, i bob pwrpas; gellir dyfalu tybed ai ef oedd yr 'old Mr. Williams' yr hysbysir ei farw yn *Calendar of State Papers, Domestic Series* dan 23 Awst 1628. Yr oedd ei fusnes yn flodeuog, a gweithredai hefyd fel math o fancer. Dengys papurau [Gwydir](#) y byddai'n rhoi benthyg arian (£500 ar un achlysur) i'w 'cousin' [Syr John Wynn](#) - ac yn cael cryn drafferth i'w gael yn ôl; y cyfeiriad olaf ato yn y papurau (1389) yw apêl ato gan [Wynn](#) i fod yn ymarhous - edrydd [Owen Wynn](#) wrth ei dad fod Williams 'wedi ymddyrfafu' er pan gwmpodd yr [esgob John Williams](#) allan o ffafr. Bryd arall (Rug Deeds yn LL.G.C., rhif 759 - a chymharer *Cal. Wynn Papers*, 588, 615), cawn ef, ddechrau 1615, yn cymryd [Bachymbyd](#) a thiroedd eraill yn wystl gan [William Salesbury o'r Rhug](#). Ond yr oedd ganddo ddiddordebau heblaw ei aur. Hoffai lenyddiaeth a hynafiaethau; cyflwynodd yr epigramydd [John Owen](#) ddau epigram (yn 1607 a 1613) iddo, gan ei gyfarch fel câr. Yn y rhagymadrodd i *Polyolbion* Drayton, 1612, sonia'r bardd hwnnw am y plaser a gâi yng nghymdeithas ei 'annwyl gyfaill, gwr mawr ei gariad at ei wlad enedigol,' a roes i Drayton lawer o wybodaeth am hen hanes Cymru - ac edrydd gwr arall i John Williams roi rhai o bapurau'r hynafiaethydd Leland (bu farw 1552) i Drayton.

Priododd Williams â gweddw rhyw Isaac, gof arian (awgryma [J. E. Griffith](#), op. cit. 393 a 359, mai dyn o Lanfrothen oedd hwnnw).

Cymysgwyd John Williams o'r Hafod Lwyfog gan rai ysgrifenyddwr â gwr arall, llawer mwy adnabyddus, o'r un enw, sef y ' Sir John Williams, maister of the kinges jewels,' yr edrydd Stow (*Survey of London*, arg. ' Everyman,' 264) hanes llosgi ei dy yn 1541. Adroddir hanes y gwr hwnnw - JOHN WILLIAMS (1500? - 1569), ' Baron Williams of Thame ' - yn helaeth yn y *D.N.B.*; bu'n geidwad gemau Harri VIII o 1531 hyd 1544. Yr oedd o dras Cymreig - yn ddisgynnydd William ap Grono o Forgannwg ([Clark](#), *Limbus Patrum*, 127-8), ac yn gâr i Thomas Cromwell (Williams); ond ar wahân i fod yn llywydd Cyngor y Goror ym mlwyddyn olaf ei fywyd (yn Llwydlo y bu farw), ni bu ddim a wnâi â Chymru.

Yr oedd mab John Williams,

### **JOHN WILLIAMS (bu farw 1637), gof aur**

(yn S. Peter's, Eastcheap), ond hefyd yn wr tiriog yn Marnhull, Dorset. O bedwar mab hwnnw, urddwyd yr hynaf, Edmund, yn farwnig yn 1642, a'r ail, John, ' of Minster in the Isle of Thanet,' yntau'n farwnig yn yr un flwyddyn; yr oedd mab arall, Syr Morris (marchog), yn ffigwr i'r frenhines. Daeth y ddwy farwnigiaeth i derfyn buan yn niffyg aerod gwrywol (G.E.C., *Complete Baronetage*, ii, 168).

### **Awdur**

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

At y cyfeiriadau uchod chwaneger *The History of the Gwydir Family* (1927) (arg. Askew Roberts), 87  
D. E. Jenkins, *Bedd Gelert, its facts, fairies, and folk-lore* (Porthmadog 1899), 119-20, 269-70, 281-3

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20821436](https://www.wikidata.org/wiki/Q20821436)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

